# Idelalisib i drin lewcemia lymffosytig cronig

Hydref 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir idelalisib (Zydelig), a roddir gyda chyffur o'r enw rituximab, fel triniaeth bosibl i oedolion sydd â:

- lewcemia lymffosytig cronig sydd heb ei drin, dim ond os oes ganddynt nodweddion geneteg penodol
- lewcemia lymffosytig cronig, dim ond os yw wedi cael ei drin, ond mae wedi dychwelyd o fewn dwy flynedd.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych lewcemia lymffosytig cronig a bod eich meddyg yn credu mai idelalisib yw’r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai idelalisib fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd idelalisib nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd idelalisib oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

## Y cyflwr a'r driniaeth (triniaethau)

Mae lewcemia lymffosytig cronig, a elwir hefyd yn CLL, yn ganser o fath o gell gwaed gwyn (a elwir yn lymffosytau B). Mae'r lymffosytau canseraidd yn lluosi mewn ffordd afreolus ac yn atal celloedd gwaed eraill rhag gweithio'n iawn.

Mae idelalisib yn atal rhai proteinau mewn celloedd canser, gan helpu i arafu twf y canser neu stopio'r canser rhag tyfu am gyfnod.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Leukaemia CARE, 0808 8010 444, www.leukaemiacare.org.uk
- Cymdeithas Lymffoma, 0808 808 5555, www.lymphomas.org.uk
- Cymdeithas Cymorth Lewcemia Lymffosytig Cronig, 0800 977 4396, www.cllsupport.org.uk
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000, www.macmillan.org.uk
- Gwybodaeth i Gleifion Cancer Research UK, 0808 800 4040, www.cancerresearchuk.org/about-cancer

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1564-4